

utk

Ungoed-Thomas & King
Cyfreithwyr • Solicitors

utk

Y Cei
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3LN

The Quay
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3LN

Rhif ffôn: 01267 237441
Ffacs: 01267 238317
E-bost: mail@utk.co.uk

Telephone: 01267 237441
Fax: 01267 238317
E-mail: mail@utk.co.uk

Lexcel
Practice Management Standard
Law Society Accredited

Ungoed-Thomas & King Limited
Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif: 2755783
Awdurdodwyd a rheoleiddwyd gan yr
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr rhif: 471940

Atwrneiaeth
Arhosol



www.utk.co.uk

DEALLTWRIAETH | YMDDIRIEDAETH | GWYBODAETH

Ers y 1af o Hydref 2007, ni ellir bellach ganiatáu Atwrneiaeth Parhaus er bod y rhai sydd eisoes wedi cael eu caniatáu yn dal i fod yn ddilys.

Yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, cyflwynwyd math newydd o atwrneiaeth, sef 'Atwrneiaeth Arhosol'. Mae Atwrneiaeth Arhosol yn ddogfen gyfreithiol lle mae unigolyn (y Rhoddwr) yn caniatáu i unigolyn arall/unigolion eraill (yr Atwrnai) i wneud penderfyniadau penodol ar ei ran/ei rhan.

Gwahanol Fathau o Atwrneiaethau Arhosol

Mae dau fath o Atwrneiaeth Arhosol:

- Atwrneiaeth Arhosol sy'n ymwneud ag Eiddo a Materion Ariannol ac sy'n awdurdodi eich Atwrnai i ddelio â'ch eiddo a'ch materion ariannol. Gall hwn ddod i rym yn syth ar ôl ei gofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
- Atwrneiaeth Iechyd a Lles sy'n awdurdodi eich Atwrnai i wneud penderfyniadau iechyd a Lles ar eich rhan pan na fydd gennych y galluedd meddyliol i wneud hynny eich hun. O fewn y ddogfen hon, gallwch hefyd awdurdodi eich Atwrnai i roi neu wrthod caniatâd am driniaeth cynnal bywyd. Ni ddaw'r Atwrneiaeth Arhosol hwn i rym hyd nes y byddwch yn colli eich galluedd meddyliol.

Eich Atwrnai

Mae pob Atwrneiaeth yn ddogfen bwerus a phwysig, a dylech gymryd gofal wrth ddewis eich Atwrnai/Atwrneiod. Dylent fod yn ddibynadwy ac yn meddu ar y sgiliau priodol i weithredu ar eich rhan. Os byddwch yn penodi mwy nag un Atwrnai, gallwch eu penodi i weithio ar y cyd, sy'n golygu bod yn rhaid i bob un ohonynt gytuno â'r hyn sy'n cael ei wneud a llofnodi pob dogfen gyda'i gilydd. Fel arall, gallwch eu penodi ar y cyd ac yn unigol sy'n golygu y gall un o'ch Atwrneiod weithredu ar eich rhan heb o reidrwydd ymgynghori â'r llall. Gallwch hyd yn oed eu penodi i weithredu ar y cyd



mewn perthynas â rhai materion, ac yn annibynnol ar gyfer materion eraill, er ni ddylid gwneud hyn heb geisio cyngor pellach gennym ni gan y gallai achosi problemau wrth ddefnyddio'r Atwrneiaeth.

Dan y ddeddfwriaeth newydd, mae'n bosib penodi Atwrnai Wrth Gefn i gymryd drosodd wrth eich Atwrnai/Atwrneiod os bydd eich atwrnai yn marw o'ch blaen chi neu yn methu neu'n amharod i weithredu ar eich rhan.

Pryd all Atwrnai weithredu?

Ni fydd eich Atwrnai yn gallu gweithredu ar eich rhan mewn perthynas ag Atwrneiaeth Arhosol yn ymwneud ag Eiddo a Materion Ariannol hyd nes bod y ffurfioldebau cyfreithiol wedi'u cwblhau a'r ddogfen wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Gellir defnyddio'r Atwrneiaeth Arhosol hwn tra bod gennych y galluedd meddyliol i weithredu yn ogystal â phan na fydd gennych y galluedd meddyliol i ddelio â'ch materion ariannol.

Ni ddaw'r Atwrneiaeth Arhosol Iechyd a Lles i rym hyd nes ei bod wedi cael ei gofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'ch bod chi wedi colli eich galluedd meddyliol. Ni all unrhyw drydydd parti wneud penderfyniad mewn perthynas â thriniaeth yn ymwneud a'ch Iechyd a'ch Lles tra bod gennych y galluedd meddyliol i wneud eich penderfyniadau eich hun.

Darparwr Tystysgrif

Unwaith y byddwch wedi arwyddo Atwrneiaeth Arhosol, bydd rhaid i 'Ddarparwr Tystysgrif' ddarparu tystysgrif o fewn y ddogfen sy'n cadarnhau bod y darparwr tystysgrif wedi trafod darpariaethau'r Atwrneiaeth Arhosol gyda chi, eich bod chi wedi deall natur a chwmpas yr awdurdod yr ydych yn ei roi i'ch Atwrnai, na osodwyd unrhyw bwysau gormodol neu orfodaeth arnoch i wneud yr Atwrneiaeth Arhosol, ac nad oes unrhyw reswm arall pam na ddylid caniatáu'r Atwrneiaeth Arhosol. Gallwch ddewis eich Darparwr Tystysgrif eich hun os dymunwch.

Atwrneiaeth Parhaus sydd eisoes yn bodoli

Fel y nodwyd, bydd unrhyw Atwrneiaeth Parhaus dilys a wnaed cyn y 1af o Hydref 2007 yn parhau i fod yn ddogfen gyfreithiol, ond gellir ei defnyddio mewn perthynas â'ch eiddo a'ch materion ariannol yn unig. Nid yw Atwrneiaeth Parhaus yn awdurdodi eich Atwrnai i ddelio â materion yn ymwneud â'ch Iechyd a'ch Lles. Os ydych yn dymuno caniatáu awdurdod felly i'ch Atwrnai, bydd angen i chi wneud Atwrneiaeth Arhosol Iechyd a Lles.



Beth os nad ydych wedi gwneud Atwrneiaeth Parhaus neu Arhosol?

Os byddwch yn colli eich galluedd meddyliol ac yn methu â gwneud penderfyniadau dros eich hun, bydd angen i aelod o'ch teulu, ffrind agos neu ymgynghorydd proffesiynol wneud cais i'r Llys Gwarchod er mwyn penodi Dirprwy i wneud penderfyniadau ar eich rhan. Mae hyn yn gostus ac yn cymryd llawer o amser ac yn golygu y bydd eich Ystad yn atebol yn barhaol am dalu ffioedd goruchwylio blynyddol, bond yswiriant blynyddol a ffioedd ar gyfer cyflwyno cyfrifon blynyddol i'r Llys.

Os bydd gennych Atwrneiaeth Parhaus neu Arhosol dilys, ni fydd angen i drydydd parti wneud cais i'r Llys Gwarchod am Orchymyn Dirprwyo os byddwch yn colli eich galluedd meddyliol.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gwnewch apwyntiad i weld un o'n Cyfreithwyr arbenigol.